

RHESTR GWIRO CYMHWYSEDD DBS AR GYFER GWEITHWYR GYDAG OEDOLION BREGUS



Enw: _____ Rôl: _____

Enw'r Eglwys: _____

Os gallwch roi tic yn un neu fwy o'r blychau yn **A** isod mewn perthynas â'ch gwaith gydag oedolion bregus yn yr eglwys rydych yn cymryd rhan mewn **GWEITHGAREDD A REOLEIDDIR** a **RHAID** i chi wneud gwiriad DBS (gyda gwiriad o'r rhestr gwahardd)

A

- Gofal Personol:** Rydych yn cynorthwyo rhywun gyda ymolchi, gwisgo, bwyta, yfed neu dyletswyddau toiled. (neu yn annog rhywun i wneud)
- Cymorth gyda materion yn y cartref:** Rydych yn darparu cymorth i oedolyn oherwydd eu hoed, salwch neu anabledd, ble mae hyn yn cynnwys rheoli arian yr unigolyn, talu biliau neu siopa ar eu rhan.
- Cymorth gyda Rheoli Materion:** Pŵer atwrnai/Dirprwyon wedi eu penodi o dan y Ddeddf Galluoedd Meddyliol.
- Cludo oedolyn** ar gyfer gofynion iechyd neu gofal oherwydd oed, salwch neu anabledd. Gallai hyn fod i apwyntiad ysbyty neu gasglu rhywun o gartref gofal preswyl.

Ar gyfer y gweithgareddau uchod does dim amod amledd ar gyfer oedolion

Methu ticio'r blychau uchod? Darllenwch ymlaen...

Os ydych yn ymweld neu wneud gwaith bugeiliol gydag oedolion bregus yn rheolaidd neu yn ymddiriedolwr mewn eglwys gyda gweithgareddau penodol ar gyfer oedolion bregus, byddwch yn gymwys i gael gwiriad DBS manwl (heb wiriad o'r rhestr wahardd)

OS ydych yn gallu ticio un o'r blychau yn **B** isod:

B

- Rydych yn **Ymddiriedolwr** mewn eglwys sydd â gweithgareddau penodol gyda grwpiau bregus. (Mae hyn yn golygu bod eich eglwys yn cyfrif fel elusen grwpiau bregus at dibenion DBS)
- Rydych yn gweithio'n **rheolaidd** (yn wythnosol, neu 4 diwrnod neu fwy mewn 30 diwrnod, neu dros nos) gyda rhai sydd angen cymorth oherwydd eu **hoedran, salwch, anabledd** neu yn byw mewn mathau penodol o lety (e.e.carchar, cartref gofal preswyl)

Pan fo cymhwysedd, ein polisi yw y dylid cynnal gwiriad DBS manwl. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion Arfer Da a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau

Os ydych yn gweithio gyda phlant ac oedolion mae'n bosibl gwneud un gwiriad ar gyfer y ddau weithlu.

Dal yn ansicr? Mae'n anodd iawn i gynnwys y holl amrywiadau mewn rhestr gwiro ac mae 'na eithriadau felly cyswlltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Cysylltwch â Swyddfa'r Panel Diogelwch Cydenwadol:

☎+ 📄 01745 817584 📧 post@paneldiogelwch.org.uk 🌐 www.paneldiogelwch.org.uk